**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Mehefin 2007**

**CYNLLUN GWEITHREDU LLEIHAU RISG 2008/09**

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid & Chaffael)**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** I gyflwyno Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft 2008/09 i Aelodau.

**Cyflwyniad**

**2.** Ar y 21ain Mawrth 2006, fe lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei ganllaw i Awdurdodau Tân ac Achub ar Gynlluniau Lleihau Risg o'r enw "Cymru Gwlad Fwy Diogel". Roedd yn cymryd lle y canllaw a pholisi blaenorol o Gynllunio Rheoli Risg Integredig.

**3.** Mae'r Cynllun Lleihau Risg yn darparu'r cyfeiriad strategol angenrheidiol i Awdurdodau roi sylw i'r risg mewn ffordd strwythuredig tra'n cofleidio'r pwyslais cynyddol ar atal.

**4.** Mae'n bwysig i Aelodau nodi:

- Mai prif nod y Cynllun Lleihau Risg yw i leihau risg
- Fod rhaid i awdurdodau gael Cynllun Lleihau Risg neu Gynllun Gweithredu sy'n eiddo i'r cyhoedd, ac yr ymgynghorwyd yn ei gylch, erbyn 31ain Hydref yn flynyddol.
- Rhaid i awdurdodau ymgynghori'n eang ar y Cynllun Lleihau Risg neu Gynllun Gweithredu a chaniatáu lleiafswm o 12 wythnos ar gyfer yr ymgynghoriad

**Cyflwyniad** *(parhad)*

5. Diben yr adroddiad cyflwyno hwn yw i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Lleihau Risg 2008-09 drafft i Aelodau sy'n ganlyniad i waith y Gweithgor Lleihau Risg. Derbyniwyd yr argymhellion gan y Panel Gweithredol ar 21ain Mai 2007.

**Canlyniad**

6. I gwrdd â'r gofynion ddangosir yn adran 4, y dyddiad olaf posib y gellir cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu am ymgynghoriad cyhoeddus yw 10fed Gorffennaf 2007. Mae hyn er mwyn sicrhau fod yr holl ymatebion yn gallu cael eu hadrodd i'r Awdurdod a'r Cynllun Gweithredu'n cael ei gyhoeddi erbyn 31ain Hydref 2007.

7. Bydd aelodau yn dymuno nodi hefyd fod Cynllun Gweithredu'r Cynllun Lleihau Risg drafft, yn groes i'r canllaw, heb ei gyflwyno i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio am drafodaeth anffurfiol. Gwneir hyn cyn gynted â bod amgylchiadau yn caniatáu.

**Argymhelliad**

8. Fod Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo Cynllun Gweithredu drafft y Cynllun Lleihau Risg am ymgynghoriad cyhoeddus.